

Cyfarfod Trwyddedu

Cynhelir Cyfarfod Trwyddedu'r Parchg Carol Roberts, a oedd yn gwasanaethu'r Eglwys yng Nghymru yn Nyffryn Peris hyd yn gynharach eleni, yn Rheithor y Bala yn Eglwys Crist, Y Bala am 3.30 o'r gloch brynhawn heddiw.

Mae croeso i unrhyw un i fynd yno.

Cynllun Efe

Bydd Capel Coch yn cefnogi gwaith Efe yn ariannol dros y flwyddyn nesaf. Os oes unrhyw aelod o Gapel Coch yn dymuno cyfrannu at waith Efe a wnewch chi roi eich cyfraniad mewn amlen, a'i anfon at Drysorydd Capel Coch, Mr Colin Jones.

Nid aelodau Capel Coch yn unig sy'n medru cefnogi gwaith Cynllun Efe wrth gwrs. Os oes unrhyw un ohonoch, o un arall o eglwysi'r Ofalaeth yn dymuno cyfrannu at y gwaith, rhowch eich arian mewn amlen i'r Gweinidog neu i un o swyddogion eich eglwys os gwelwch yn dda. Mae modd cyfrannu unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn.

Hen stampiau

Rydym yn dal i gasglu hen stampiau yn Capel Coch. Rhowch nhw yn y bocys yng nghyntedd y capel os gwelwch yn dda.

Y mis nesaf - Deiniolen

Hydref 21

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 28

5.00 p.m. - Y Parchg Huw Pritchard

Tachwedd 4

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Hydref 21: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch YN Y LLYFRGELL YN NHY ELIDR gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fawrth, Hydref 16: Y Gymdeithas Undebol am 7.00 o'r gloch. Sgwrs gan y Parchg Euron Hughes am 'Y Co Bach'.

Dydd Sul, Hydref 21: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Huw Pritchard. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

CARMEL

Dydd Llun, Hydref 15: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Hydref 19: Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 21: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Cynhelir oedfa am 5.00 o'r gloch.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Hydref 18: Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 21: Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Euros Wyn Jones, Llangedfni.

REHOBOTH

Dydd Sul, Hydref 21: Nid oes oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Hydref 21

10.00 a.m. - Y Parchg Huw Pritchard
11.15 a.m. - Ysgol Sul

Hydref 28

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
(a fydd hefyd yn Oedfa Fedydd)

Tachwedd 4

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Gronyn

Rhif 770
14 Hydref, 2018

Wrth eu henwau

Gareth, Hannah, Idris, Jane, Kevin a Lily. Mae rhestru'r enwau fel hyn yn f'atgoffa o ddyddiau ysgol pan fyddai'r athro neu'r athrawes yn cadw cofrestr ar ddechrau dydd. 'Yma, Miss'; 'Yma, Syr'; neu ddistawrwydd os byddai'r plentyn yn absennol neu'n hwyr. Heb gyrraedd eto mae Gareth a Hannah a'r lleill; a ddôn nhw ddim nes bydd Deirdrie ac Erik a Freya wedi bod. Un ar y tro ydi hi yn yr ysgol arbennig hon i blant anystywllt. Tro Callum oedd hi'r wythnos ddiwethaf, a gwnaeth hwnnw ei orau glas i greu llanast, gan achosi tirlithriad a llifogydd a llorio sawl coeden.

Dechreuwyd enwi stormydd yng ngwledydd Prydain dair blynedd yn ôl. Mae'r enwau uchod ymlith yr un enw ar hugain a bennwyd ar gyfer stormydd eleni a'r flwyddyn nesaf. Yn nhrefn y wyddor, rhoir enw i bob storm yn ei thro gan ddefnyddio enwau bechgyn a merched bob yn ail. Deirdrie fydd y nesaf. A gwyliwch! Os cawn aeaf neilltuol o galed, mi ddaw Tristan a Wyn hefyd; digon i ddychryn unrhyw un! Tybed ydi rhieni wedi dechrau craffu ar restr y stormydd er mwyn osgoi rhoi 'enw storm' i'w babi bach newydd?

Rhoddir enw i storm er mwyn tynnu sylw ati a chreu ymwybyddiaeth o'r difrod y gall ei achosi. Mae personoli stormydd yn ei gwneud yn haws i ni rybuddio pobl rhagdynt. Rywsut, mae Callum a Peggy a Ross yn medru codi mwy o ddychryn na rhif neu ddyddiad.

Onid nid pob storm sy'n cael enw; dim ond y rhai y disgwylir iddyn nhw wneud difrod mawr a gaiff y fraint. Mi ddaw eleni eto stormydd na fydd yn ddigon pwysig na chryf i gael enw. Druan ohonyn nhw. Mi fyddan nhw wedi chwythu a glawio eu gorau, ond fydd eu holl ymdrech ddim yn ddigon i haeddu iddyn nhw enw.

Darlun gwahanol iawn a geir o Iesu'r Bugail Da yn y Beibl: 'Mae'r defaid yn clywed ei lais, ac yntau'n galw ei ddefaid ei hun wrth eu henwau ac yn eu harwain hwy allan' (Ioan 10:3). Mae'r Bugail Da'n adnabod pob un o'i ddefaid wrth eu henwau: nid y cryfaf a'r iachaf yn unig; nid hyd yn oed y mwyaf trafferthus yn unig. Yr un peth a ddywed Duw ei hun: 'Paid ag ofni, oherwydd gwaredaf di; galwaf ar dy enw; eiddof fi ydwyf' (Eseia 43:1).

Nid y gorau na'r gwaethaf ohonom yn unig y mae Duw yn eu hadnabod a'u caru, ond pob un ohonom sy'n credu ynddo ac yn adnabod llais y Bugail Da. Y mae i bob un o'i blant eu lle yn ei deyrnas trwy ras Duw a thrwy ffydd yn ei Fab Iesu Grist. Nid y cryfaf ei ffydd, ond pob un sy'n credu. Nid y mwyaf tanbaid ei dystiolaeth, ond pob un sy'n cyffesu Iesu Grist yn Arglwydd. Nid y mwyaf dylanwadol ei waith, ond pob un sy'n ymddiried yng ngwaith Iesu Grist drostyn nhw ar Galfaria. Nid oes yr un ohonom yn rhy fychan a distadl yng ngolwg yr Arglwydd. Y mae i bob un o'i blant, trwy drugaredd, le yng nghalon ac yn nheyrnas Duw.



Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan Mr John Roberts, Llanfairpwll.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul am 5.00 o'r gloch.

Bydd Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul am 2.00 o'r gloch.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Yn nhymor y Diolchgarwch diolchwn am bob cynhaliaeth a chofiw'n am bobl sy'n wynebu amgylchiadau anodd. "Dduw Dad, yn dy drugaredd, llwydda bob ymdrech i rannu adnoddau'r ddaear â mwy a mwy o bobl er mwyn lleddfu peth

Balm o Salm



'Yr wyt yn dyfrhau'r mynyddoedd o'th balas; **BYW Y BEIBL** digonir y ddaear trwy dy ddarpariaeth. Yr wyt yn gwneud i'r gwellt dyfu i'r gwartheg, a phlanhigion at wasanaeth pobl, i ddwyn allan fwyd o'r ddaear, a gwin i lonni calonnau pobl, olew i ddisgleirio'u hwynebau, a bara i gynnal eu calonnau ... Y mae'r cyfan ohonynt yn dibynnu arnat ti i roi iddynt eu bwyd yn ei bryd. Pan roddi iddynt, y maent yn ei gasglu ynghyd; pan agori dy law, cânt eu diwallu'n llwyr (Salm 104:13–15; 27–28).

ar y dioddefaint mawr a welwn o'n cwmpas. Wrth i ni ddiolch am yr holl bethau da sydd gennym, cyflwynwn i'th ofal bawb sy'n amddifad o gymaint o'r bendithion hynny."

Deiniolen

Cefnogi'r Banc Bwyd

Y Sul nesaf, ar yr Wyl Ddiolchgarwch byddwn yn derbyn rhoddion yn yr oedfa yn Neiniolen at Fanc Bwyd Caernarfon a'r Cylch. Dowch ag unrhyw fwydydd addas i'r oedfa os gwelwch yn dda—tuniau bwyd, bwydydd sych a bisgedi yn bennaf.

Cwrs Ieuentid

Yng Ngholeg y Bala

Nos Wener – Dydd Sul
Tachwedd 2–4

Manylion pellach
i'w cael gan
y Gweinidog

Gwerthu Ebeneser

a

Dewis cartref newydd

Mewn occiwn a gynhaliwyd yn Gaerwen ddydd Iau diwethaf gwerthwyd safle Ebeneser Deiniolen (y capel a'r festri). Gobeithir cwblhau'r gwerthiant yn ystod mis Tachwedd.

Oherwydd hynny, mae angen i aelodau Ebeneser a Chefnywaun benderfynu lle byddwn yn cynnal ein hoedfaon wedyn. Mae dau bosibilrwydd, sef addoli yn Nhy Elidir neu yn Eglwys Llandinorwig. Yr ydym yn ddiolchgar y croeso cynnes a gawsom wrth drafod hyn gyda Menter Fachwen yn Nhŷ Elidir a chyda'r Eglwys yng Nghymru.

Rydym yn gyfarwydd â'r Eglwys, ond gan fod cynnal oedfaon mewn adeilad heblaw capel neu eglwys yn ddieithr i ni, trefnwyd ein bod yn cynnal ein hoedfa **nos Sul nesaf, Hydref 21** yn Nhŷ Elidir (yn y Llyfrgell ar y llawr cyntaf, gan ddefnyddio'r drws yn y maes parcio yng nghefn yr adeilad). **Bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch.** Bydd hyn yn help i ni wybod beth fyddai cynnal oedfa yno.

Bydd angen i ni benderfynu pa un o'r ddau leoliad fyddai fwyaf addas wrth i ni fentro i gyfnod newydd yn hanes eglwysi Ebeneser a Chefnywaun.

Dathlu

Wedi'r oedfa yng Nghapel Carmel nos Sul diwethaf aeth y gynulleidfa i'r festri i ddatlu'r ffaith fod Mrs Helen Williams wedi derbyn Medal Gee am ffyddlondeb oes i'r Ysgol Sul mewn oedfa arbennig yn Llandudno ddiwedd Medi. Diolch i bawb a fu'n paratoi'r lluniaeth a'r gacen hyfryd. Diolchodd Helen i bawb am eu cefnogaeth a'u cymorth. Diolchwyd iddi a'i llongyfarch ar ran yr eglwys gan y Gweinidog.

Cynllun Efe

Oedfa Gomisiynu

Susan Williams

yn Weithiwr
Plant, Ieuentid a Theuluoedd
Cynllun Efe, Caersalem Caernarfon a
Scripture Union Cymru

yng
Nghanolfan y Capel, Caethro
am 7.00 o'r gloch
nos Iau, Hydref 18

Hwn fydd Cyfarfod Blynnyddol
Cynllun Efe am eleni hefyd

Croeso cynnes i bawb



Coffad

Mrs Helen Wyn Jones

Bu farw Mrs Helen Jones, 9 Tai Caradog, Deiniolen yn Ysbyty Gwynedd ddydd Iau, Ebrill 12 yn 70 mlwydd oed.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladd yn yr Amlogsgfa ym Mangor ddydd Iau, Ebrill 19 dan arweiniad y Gweinidog.

Roedd Helen wedi bod yn wael ers dros ddwy flynedd, a bu'r wythnosau diwethaf yn arbennig o anodd a hithau yn Ysbyty Gwynedd ers canol mis Ionawr.

Cydymdeimlwn â'i phriod Bryn a'i mab Kevin a'r teulu cyfan yn eu colled.